



Cyngor Bwrdeistref Sirol

**Blaenau Gwent**

County Borough Council

**COD LLYWODRAETHU**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
BLAENAU GWENT**

**Diwygiwyd ddiwethaf: Mawrth 2019  
Fersiwn 9**

# CYNNWYS

	Rhif tudalen
1.0 Cyflwyniad .....	1
2.0 Elfennau Llywodraethu Corfforaethol .....	2
2.1 Egwyddor Graidd A .....	2
<i>Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.</i>	
2.2 Egwyddor Graidd B .....	5
<i>Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid.</i>	
2.3 Egwyddor Graidd C .....	8
<i>Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.</i>	
2.4 Egwyddor Graidd D .....	9
<i>Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r cyflawniad gorau posibl o ran y canlyniadau a fwriedir.</i>	
2.5 Egwyddor Graidd E .....	10
<i>Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo.</i>	
2.6 Egwyddor Graidd F .....	13
<i>Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.</i>	
2.7 Egwyddor Graidd G .....	15
<i>Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.</i>	
3.0 Monitro ac Adolygu .....	16

## **COD LLYWODRAETHU LLEOL**

### **1.0 CYFLWYNIAD**

Croeso i argraffiad diweddaraf Cod Llywodraethu Lleol y Cyngor.

Mae'r Cod Llywodraethu Lleol wedi'i ddatblygu o ddogfen fframwaith a chanllawiau a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), ond heb os y Cyngor ei hun sy'n gyfrifol am y cynnwys. Mae'r fframwaith yn nodi saith egwyddor graidd llywodraethu da sydd â'r nod o arwain awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu'n hwyluso defnydd tryloyw, effeithlon ac atebol o adnoddau ar gyfer dinasyddion Blaenau Gwent yn y pen draw. Mae'r Cyngor yn dangos sut y mae'n cydymffurfio â'r egwyddorion hyn yn ei God Llywodraethu. Dyma'r saith egwyddor graidd a bennwyd ar gyfer llywodraethu da:-

- Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid
- Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r cyflawniad gorau posibl o ran y canlyniadau a fwriedir
- Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo
- Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref
- Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Nid yw'r egwyddorion hyn i'w darllen ar wahân gan eu bod i gyd yn gydgyssylltiedig ac yn gorgyffwrdd neu'n cyfuno â'i gilydd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gweithredu drwy Fframwaith Llywodraethu sy'n dwyn ynghyd set sylfaenol o ofynion deddfwriaethol, egwyddorion llywodraethu a phrosesau rheoli. Nod y ddogfen hon yw codeiddio'r fframwaith hwn a galluogi'r Cyngor i ddangos yn dryloyw sut mae'n gweithredu yn erbyn y safonau llywodraethu gorau, a barnu a mesur unrhyw welliannau angenrheidiol.

Mae Arweinydd ac aelodau'r Cyngor ynghyd â'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol wedi cymeradwyo'r cod lleol hwn fel fframwaith i gynnal busnes er mwyn sicrhau gwelliannau i bobl Blaenau Gwent.

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r Cod a monitro ei effeithiolrwydd i'w Bwyllgor Archwilio. Yn dilyn adolygiad o'r Cod Llywodraethu a pha mor dda neu fel arall y mae'n gweithio, bydd yr adroddiad canlyniadol – ei Ddatganiad Llywodraethu Blyneddol yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio i brofi lefel y sicrwydd a dderbyniwyd ynghylch cymhwyso'r

Cod.

Caiff y Cod ei adolygu'n flynyddol, a bydd canlyniadau'r adolygiadau'n cael eu cynnwys mewn Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn y dyfodol.

Mae awdurdodau lleol yn parhau i gael eu monitro gan arolygwyr a rheoleiddwyr. Mae cynnydd wedi'i wneud yn erbyn argymhellion adroddiadau rheoleiddwyr sy'n helpu i lunio Fframwaith Llywodraethu'r awdurdod. Mae gwaith wedi'i wneud i adolygu nifer y cynigion 'agored' ar gyfer gwella drwy'r Cyngor i gyd. Mae diweddariad wedi'i ddarparu yn erbyn pob cynnig er mwyn canfod beth sydd wedi'i gwblhau a ble mae angen rhagor o waith. Mae'r gwaith wedi galluogi symleiddio gweithgarwch a monitro mwy penodol fel rhan o'r adroddiad cyllid a pherfformiad ar y cyd.

Ym mis Medi 2018, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei hadroddiad gwella blynyddol ar gyfer 2017-18. Ar sail ac yn gyfyngedig i'r gwaith a wnaed, casgliad yr Archwilydd Cyffredinol yn yr adroddiad yw bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, yn ystod 2018-19. Mae pob Tystysgrif Cydymffurfiaeth Archwilio berthnasol wedi'i derbyn.

## 2.0 **ELFENNAU LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Er mwyn cyflawni egwyddorion llywodraethu corfforaethol da, mae'r Cyngor yn cefnogi ac yn cymhwyso'r saith egwyddor graidd, a'u hegwyddorion ategol cysylltiedig, fel a ganlyn:-

### 2.1 Egwyddor Graidd A

**Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod natur agored, uniondeb ac atebolrwydd unigolion mewn sefydliad yn ffurfio congruaen llywodraethu corfforaethol effeithiol. Mae hygyrdd ac enw da'r Cyngor yn dibynnu ar safonau ymddygiad uchel gan ei staff, ei aelodau a'i gynrychiolwyr a'i nod yw rhannu gwerthoedd ar draws yr holl grwpiau hyn. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2018/22 yn cynnwys cyfres o werthoedd a rennir, sef:

- Balch ac Uchelgeisiol
- Ymddiriedaeth ac Integriti
- Gweithio gyda'n Gilydd
- Cynyddu Uchelgais
- Teg a Chyfartal.

Felly, nod y Cyngor yw gweithredu o fewn diwylliant ymddygiad sy'n seiliedig ar werthoedd cyffredin, egwyddorion moesegol ac ymddygiad da ac mae'n disgwyl i'w uwch aelodau a'r rheolwyr ddangos arweinyddiaeth wrth hyrwyddo' r egwyddorion hyn.

Bydd y Cyngor yn cyflawni hyn drwy gynnal, cyfathrebu ac adolygu'r canlynol:-

- Cod Ymddygiad i Aelodau
- Cod Ymddygiad i Swyddogion
- Cyfansoddiad y Cyngor
- Fframweithiau ar gyfer Craffu a'r Weithrediaeth
- Protocolau anffurfiol parthed: Cwynion – Aelodau a Swyddogion
- Cofrestrau Buddiannau ar gyfer Aelodau a Swyddogion
- Rheolau gweithdrefnol i Aelodau a Swyddogion ddatgan buddiant yn y busnes sy'n cael ei ystyried gan yr holl bwyllgorau a'r Cyngor
- Mae gan bob Pwyllgor swyddog cyngori i hyrwyddo'r dull priodol o gynnal cyfarfodydd
- Rheolau Gweithdrefn y Contract
- Polisi Gwrth-dwyll, Gwrth-lygredd a Gwrth-lwgrwobrwyo, gan gynnwys llinell gymorth twyll
- Fframwaith Cymwyseddau diffiniedig ar gyfer staff
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Gweithredu Pwyllgor Safonau gan gynnwys aelodaeth allanol annibynnol gyda chylch gorchwyl diffiniedig
- Cyfrifoldeb dirprwyedig i swyddogion allweddol o ran twyll, codau ymddygiad, safonau a chwythu'r chwiban
- Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Phwyllgor Archwilio fel rhan o fframwaith sicrwydd y Cyngor
- Cynnal Rhestr Flynyddol o Gydabyddiaeth Ariannol Aelodau, cynnal cofrestr i gofnodi taliadau a chyhoeddi'n flynyddol yn y wasg leol
- Hyfforddiant sefydlu i swyddogion ac aelodau gan gynnwys safonau ymddygiad a ddisgwylir a Rhaglen Datblygu Aelodau barhaus
- Fframwaith Cymwyseddau Aelodau ac Adolygiadau Datblygiad Personol i lywio'r Strategaeth Datblygu Aelodau a'r Rhaglen Hyfforddi
- Cyfle ffurfiol i bob aelod ddatgan eu buddiannau ar ddechrau cyfarfod.

Mae'r Cyngor wedi pennu safonau ymddygiad gofynnol ac wedi darparu canllawiau i helpu i gynnal a gwella safonau. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi Urddas yn y Gwaith yn ogystal â'i Godau Ymddygiad a Pholisi Chwythu'r Chwiban. Yn 2018/19, gwnaed un gŵyn yn erbyn Aelodau i'r ombwdsmon. Ymchwiliwyd iddi a chanfuwyd nad oedd yn torri'r rheolau. Ar gyfer 2017/18, gwnaed deuddeg cwyn o gamweinyddu ac nid aeth pump ohonynt yn eu blaenau, cafodd tair eu cau ar ôl yr ystyriaeth gychwynnol, cafodd un ei setlo'n wirfoddol a chadarnhawyd un.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cyfansoddiad sydd yn:

- Diffinio'n glir y swyddogaethau hynny a gedwir i'r Cyngor llawn benderfynu arnynt, y penderfyniadau hynny y bydd y

Weithrediaeth neu ei aelodau unigol yn eu gwneud, a'r rhai sydd wedi'u dirprwyo i uwch swyddogion. Mae'r cyngor llawn yn pennu'r cyfeiriad strategol drwy fabwysiadu polisiau mawr a'r gyllideb, mae'r Weithrediaeth yn cymryd penderfyniadau pwysig o fewn fframwaith cyffredinol y polisi a'r gyllideb, gan helpu i ddatblygu polisiau newydd. Mae swyddogion yn gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd o fewn fframwaith y polisi a'r gyllideb

- Nodi'r cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dangosir penderfyniadau y gall y Weithrediaeth a'r Pwyllgorau eraill a'r Cyngor llawn eu gwneud yn adrannau 4-7 o'r Cyfansoddiad. Yn ogystal, mae polisiau a phrotocolau'r Cyngor yn nodi'r prosesau y mae'n rhaid eu dilyn wrth wneud penderfyniadau e.e. Polisiau Datblygu'r Sefydliad, Ceisiadau Trwyddedu a Chynllunio, Apeliadau, cyflwyno cynigion mewn Pwyllgorau
- Sefydlu rôl drosolwg a chraffu gadarn drwy'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Rhyngddynt, mae gan y Pwyllgorau hyn bwerau i adolygu a chraffu ar benderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw rai o weithgareddau'r Cyngor, gan gynnwys ystyried materion polisi a gyfeirir atynt gan y Cyngor neu'r Weithrediaeth
- Nodi'n glir beth yw rôl yr Arweinydd a'r Weithrediaeth ac yn benodol, datgan yn glir eu bod yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth strategol effeithiol i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyffredinol am weithgareddau'r sefydliad cyfan yn llwyddiannus
- Gweithredu tri Phwyllgor Rheoleiddio – un Cynllunio a dau Drwyddedu sydd â phwerau penodol wedi'u dirprwyo iddynt gan y Cyngor
- Egluro rolau'r holl gynghorwyr o ran eu rôl gwneud penderfyniadau/datblygu polisi ffurfiol ac fel aelodau lleol.

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol.

Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Rheolau Gweithdrefn Ariannol cynhwysfawr a Rheolau Gweithdrefn Contract yn adrannau 16 a 17, sy'n llywodraethu'r broses i'w mabwysiadu wrth gynnal busnes y Cyngor.

Mae'r Cyfansoddiad a dogfennau ffurfiol eraill yn nodi protocolau a chodau ymddygiad clir er mwyn sicrhau bod gofynion a ffiniau'r broses o wneud penderfyniadau'n glir i'r Aelodau:

- Cod Ymddygiad Aelodau
- Gweithdrefnau Safonau

- Cod Ymddygiad ar Faterion Cynllunio
- Rolau a chyfrifoldebau y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
- Protocol aelod lleol/swyddog.

Yn ogystal, mae cyfres o Bolisiâu Cyflogaeth sy'n rhoi gwybodaeth glir i swyddogion am ddisgwyliadau yn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae'r Cyngor yn cydnabod terfynau'r gweithgarwch cyfreithlon a osodir arnynt gan ymdrechu hefyd i ddefnyddio pwerau er budd llawn eu cymunedau drwy:-

- Gyngor cyfreithiol wrth baratoi adroddiadau Cyngor, Pwyllgor a Gweithrediaeth
- Y cyngor cyfreithiol sydd ar gael yng nghyfarfodydd y Cyngor, y Weithrediaeth a'r Pwyllgorau Statudol
- Datblygiad proffesiynol a hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant amlasiantaethol i staff Gofal Cymdeithasol Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn arbennig)
- Polisiâu a phrotocolau'r Cyngor sy'n nodi'r prosesau
- Prosesau asesu effaith.

## 2.2 Eqwyddor Graidd B

### **Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid.**

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei brif ddiben o ran darparu gwasanaethau ar gyfer pobl Blaenau Gwent a'r angen penodol i ymgysylltu â nhw a rhanddeiliaid eraill wrth gynllunio gwasanaethau i gael eu darparu ac i fod yn atebol iddynt am y gwasanaethau hynny.

Nod y Cyngor yw cyflawni hyn drwy:-

- Linellau cyfathrebu clir â phobl a sefydliadau y mae'r Cyngor yn atebol iddynt
- Datganiadau clir o rôl ei aelodau yn eu swyddi amrywiol
- Datganiadau clir o rolau ac atebolrwydd staff yn eu disgrifiadau swydd
- Cylch gorchwyl pwyllgorau'r Cyngor a'u cynnal yn agored i'r cyhoedd
- Datganiad clir o flaenoriaethau strategol, gweithgarwch a dangosyddion perfformiad fel maent wedi'u cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol 2018/22. Mae blaenoriaethau'r cynllun yn gweithredu fel Amcanion Llesiant a Gwella, gan gyflawni'r ddyletswydd gorfforaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru)

- Gweithredu gweithdrefn gwyno effeithiol
- Ymgynghori â staff a chymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau
- Sicrhau bod staff ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd drwy gyfarfodydd, ar y ffôn, e-bost a lle bo'n briodol, ymweliadau cartref
- Sicrhau bod trefniadau partneriaid a threfniadau caffael yr un mor glir ynghylch atebolrwydd.

Mae Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn amlinellu'r amcanion ar gyfer gwella lles ym Mlaenau Gwent a chyflawni'r dyletswyddau cyfunol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Mae'n ganlyniad proses helaeth o sgysiau parhaus a dadansoddiad o'r dystiolaeth i greu darlun o sut olwg sydd ar lesiant yma a'r hyn y gallwn ei wneud i'w wella.

Mae'r Cynllun yn nodi pum amcan yr ystyrir bod ganddynt rym gwirioneddol i sicrhau newidiadau, sef y rhai mwyaf brys a bod y dystiolaeth yn dweud wrthym fod angen cyfuno grymoedd partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni a gwella llesiant. Y rhain yw:

- Cymunedau diogel a chyfeillgar
- Edrych ar ôl ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol
- Annog a galluogi pobl i wneud dewisiadau ffordd iach o fyw mewn mannau y maent yn byw, dysgu, gweithio a chwarae ynddynt
- Llunio llwybrau newydd i ffyniant
- Y cychwyn gorau mewn bywyd i bawb

Mae Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor yn nodi ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau syml, hawdd eu defnyddio a chost effeithiol. Mae hyn yn cynnwys:

- Mwy o ddewis a chyfleustra o ran mynediad i wasanaethau
- Cynnwys cwsmeriaid yn fwy yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio, eu hadolygu a'u gwerthuso
- Ymdrin ag anfodlonrwydd (cwynion) mewn ffordd gyson, a chywiros pethau os na chânt eu gwneud yn dda (gwneud iawn). Aildrafftwyd y polisi cwynion yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor
- Datblygu mwy o swyddogaethau hunanwasanaeth drwy nifer o sianeli
- Ei gwneud yn haws i breswylwyr ddod o hyd i wybodaeth am



wasanaethau'r Cyngor gan ddefnyddio sianeli traddodiadol a digidol.

Datblygwyd Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol 2018/19, ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gweithredol ym mis Ebrill 2018. Diben yr adroddiad oedd aros i'r Prif Swyddog Masnachol newydd gael ei benodi er mwyn datblygu strategaeth hirdymor i gefnogi Cyfeiriad Strategol y Cyngor. Mae'r swyddog hwn yn ei swydd a bydd yn ymgymryd â'r dasg hon yn awr. Nod y strategaeth yw defnyddio dulliau cyfathrebu rhagweithiol i ymgysylltu â'n preswylwyr, cynyddu lefelau bodlonrwydd, gwella ein henw da a sicrhau bod staff yn cael gwybodaeth a'u bod yn parhau i fod yn frwdfrydig. Ei nod yw meithrin ymddiriedaeth yn y Cyngor drwy gyfathrebu effeithiol.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'r gymuned. Rydym wedi adnewyddu aelodaeth y Panel Dinasyddion a'i gyfuno â gweithgareddau ymgysylltu eraill. Mae gweithgareddau ymgysylltu yn ystod 2018/19 yn cynnwys:

- Yr Her Gyllidebol – ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch cynigion cyllideb ddrafft y Cyngor ar gyfer 2019-20
- Ymgysylltu ar Wastraff Ochr – ymgysylltu â thros 3,200 o bobl leol mewn 20 o ddigwyddiadau, gan hwyluso dros 1,500 o geisiadau i wella ailgylchu
- Strydoedd Glanach – ymgysylltu â thros 850 o bobl leol a chasglu adborth drwy dros 500 o holiaduron
- Teithio Llesol – ymgysylltu â thros 250 o drigolion a 70 o sefydliadau cynrychioliadol megis grwpiau cymunedol lleol a busnesau
- Cludiant o'r cartref i'r ysgol – dros 1,200 o bobl yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori ffurfiol, gan gynnwys dros 400 wyneb yn wyneb.

Drwy fabwysiadu set o safonau gofal cwsmeriaid a ategir gan weithdrefn gwyno, nod y Cyngor yw:

- Bod â phroses cynllunio cymunedol gadarn gyda'i bartneriaid o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Deall blaenoriaethau'r ardal leol trwy fecanweithiau ymgysylltu, ymgynghori ar brosiectau penodol a dulliau eraill o ymgysylltu â'r cyhoedd (fel y manylir uchod)
- Cyhoeddi Adroddiad Craffu Blynyddol yn cynnwys cynnydd yn erbyn rhaglen waith y flwyddyn
- Nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y Cyngor yn y Cynllun Corfforaethol, a darparu barn gytbwys am berfformiad yn eu herbyn yn flynyddol.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei ddefnydd o sianeli cyfryngau cymdeithasol fel Twitter, Facebook a Flickr.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei ddefnyddwyr yn cael y cyfle i ddylanwadu ar, a derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel a gwneud y defnydd gorau o adnoddau i ddarparu gwerth rhagorol am arian.

### 2.3 Egwyddor Graidd C

#### **Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.**

Diben y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal drwy gryfhau cydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 BGCau statudol a ddisodlodd y Byrddau Gwasanaethau Lleol gwirfoddol ym mhob ardal awdurdod lleol.

Rhaid i bob BGC baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni. Cynllun Llesiant Lleol yw'r enw ar hyn. Rhaid iddo ddweud:

- Pam mae'r BGC yn teimlo y bydd eu hamcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn eu hardal leol
- Sut y mae wedi ystyried yr asesiad o Lesiant Lleol wrth bennu'r amcanion a'r camau i'w cymryd.

Bydd pob BGC yn cynnal adolygiad blynyddol o'u cynllun gan ddangos eu cynnydd. Wrth lunio eu hasesiadau o lesiant lleol a'r Cynllun Llesiant Lleol, rhaid i'r byrddau ymgynghori'n eang.

Dyma aelodau statudol pob BGC:

- Yr Awdurdod Lleol
- Yr Awdurdod Iechyd Lleol
- Y Bwrdd Iechyd Lleol
- Yr Awdurdod Tân ac Achub
- Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ogystal â'r aelodau statudol bydd pob BGC yn gwahodd y bobl ganlynol i gymryd rhan:

- Gweinidogion Cymru
- Prif Gwnstabiliaid
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Rhai Gwasanaethau Prawf
- O leiaf un corff sy'n cynrychioli sefydliadau gwirfoddol perthnasol.

Bydd y BGCau yn gallu gwahodd sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill i gymryd rhan hefyd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy. Diffinnir datblygu cynaliadwy fel proses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen gwneud hyn drwy gymryd camau yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy fel bod y nodau llesiant yn cael eu cyflawni.

Gall cyrff cyhoeddus gynyddu eu cyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol i'r eithaf drwy weithredu'r pum ffordd o weithio a nodir yn y ddeddf.

Yn ogystal â'r Codau Ymddygiad a'r protocolau y cyfeirir atynt o dan Egwyddor Graidd A, mae'r Cyngor yn ceisio cynnal safonau uchel wrth gynnal ei fusnes ac osgoi rhagfarn, tuedd a gwrthdaro buddiannau. Mae hyn i'w gyflawni drwy ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, yn unol â gofynion safonau'r Gymraeg, a fforymau ymgysylltu amrywiol megis; Fforwm Ieuenctid, Fforwm 50 + a Fforwm Mynediad i Bawb.

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf o hyn ymlaen) i rym ar 6 Ebrill 2011. Disodlodd y Ddeddf y 116 o wahanol ddarnau o gyfraith oedd yn ymwneud â chydraddoldeb, a'u rhoi at ei gilydd mewn un darn o ddeddfwriaeth. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r gyfraith mewn ffyrdd pwysig, ac mewn rhai ffyrdd mae'n ymestyn y gyfraith gyfredol er mwyn helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb.

Mae gan Gynllun Cydraddoldeb Strategol (2016-2020) y Cyngor, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016, bedwar amcan i 'w cyflawni dros gyfnod o bedair blynedd. Yr amcanion hyn yw:

1. Gwneud cydraddoldeb yn hanfodol wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau.
2. Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda gweithlu sy'n gwybod am yr agenda cydraddoldeb ac yn ei deall.
3. Gwneud ein gorau i ddiogelu a chefnogi'r bobl hynny yn ein cymuned sydd fwyaf ei angen.
4. Hyrwyddo deall a derbyn amrywiaeth yn ein cymunedau.

Gellir gweld y cynllun ar dudalen cydraddoldeb y Cyngor yn <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/cyngor/cydraddoldeb-ar-gymraeg/gwybodaeth-a-chyngor-cydraddoldeb/>

## 2.4 Egwyddor Graidd D

**Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r cyflawniad gorau posibl o ran y canlyniadau a fwriedir.**

Dangosir arweinyddiaeth drwy gyfleu'n glir beth yw diben a gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Blaenau Gwent a'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer ei ddinasyddion a'i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn parhau i wneud penderfyniadau anodd fel edrych ar ffurfiau amgen o ddarparu gwasanaethau. Mae'r heriau ar gyfer ailgynllunio a darparu gwasanaethau, ynghyd â chyfyngiadau ariannol sylweddol,

wedi golygu bod angen dull gwell o ddarparu gwaith trawsnewid hanfodol ar draws holl feysydd gwasanaeth y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cael dylanwad ehangach o fewn y gymuned ac mae'n darparu gwasanaethau hefyd drwy gymysgedd o gaffael, darpariaeth fewnol a phartneriaethau i helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn.

Mae cynlluniau busnes y Cyngor yn gadarnach ac wedi gwella ei brosesau hunanwerthuso, drwy ddatblygu'r dogfennau canllaw a'r ffurflenni ymhellach. Mae'r broses cynllunio busnes wedi'i symleiddio hefyd, gan ymgorffori dangosyddion perfformiad, risg, parhad busnes, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, a chynigion ar gyfer gwella gan archwilwyr ar un ffurflen fonitro ar system ganolog. Mae'r broses hunan-arfarnu yn cysylltu'n uniongyrchol â'r broses cynllunio busnes. Y cynllun ar gyfer 2019/20 yw gwella'r system fonitro hon ymhellach drwy gynnwys Deddf yr Amgylchedd a'i chyfrifoldebau statudol.

Mae'r Cyngor yn paratoi cyllideb flynyddol i ddarparu adnoddau ar gyfer ei flaenoriaethau gwasanaeth. Caiff Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ei diweddarau o leiaf unwaith y flwyddyn gyda'r fersiwn ddiweddaraf wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Chwefror 2019. Mae'n cynnwys amcanestyniadau hyd at 2022 er mwyn cynllunio gwasanaethau'n well. Bwriedir adolygu'r Strategaeth yn ystod gwanwyn 2019.

## 2.5 Egwyddor Graidd E

### **Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo.**

Mae'r Cyngor yn ymdrechu i sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu ei wasanaethau drwy ei broses cynllunio gwelliant a'i Fframwaith Rheoli Perfformiad, ac mae wedi cryfhau'r trefniadau hyn i'w cysoni â rheoli risg a rheoli prosiectau yn ogystal â nodi lefelau atebolrwydd.

Mae cylch gwaith y Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol Ehangach wedi cael ei adolygu. Ei ddiben cyffredinol yw cefnogi'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol yn effeithiol yn ei rôl o roi cyfeiriad strategol i'r sefydliad. Mae'r tîm Arweinyddiaeth yn fforwm hefyd sy'n gweithredu dull arwain wedi'i ddsbarthu i ledaenu negeseuon gwybodaeth a chyfathrebu, rhwydweithio gyda chydweithwyr a chyfoedion a darparu cyfleoedd datblygu personol.

Un o'r agweddau pwysicaf ar Lywodraethu yw sicrhau bod gan aelodau a swyddogion y sgiliau angenrheidiol i weithredu busnes gwerth miliynau o bunnoedd sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gwahanol. Mae anghenion hyfforddi'r aelodau'n cael eu diwallu fel rhan o ddatblygiad blaenraglenni gwaith y Pwyllgor yn ogystal â thrwy Fframwaith Cymwyseddau'r Aelodau ac Adolygiadau Datblygiad Personol. Dyfarnwyd Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu

Aelodau (Lefel 1) i'r Cyngor ym mis Awst 2018.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Cyngor y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i berfformio'n dda.

Bydd y Cyngor yn cyflawni hyn drwy:

- Barhau â'i raglen hyfforddi aelodau a'i raglen hyfforddi orfodol
- Roi gwybodaeth i aelodau ar faterion sy'n bwysig i'r Cyngor
- Hyfforddiant sefydlu a chynngor proffesiynol i'r aelodau
- Cyflwyno gofynion sgiliau a phrofiad ar gyfer swyddi â chyfrifoldeb arbennig
- Parhau i ddatblygu cymorth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i aelodau er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o weinyddiaeth fodern a gwella cyfathrebu
- Gweithredu fframwaith cymwyseddau ar gyfer swyddogion ac aelodau
- Rhaglen fentora ar gyfer aelodau etholedig
- Trefniadau i aelodau sy'n eistedd ar gyrff allanol adrodd ar eu cynnydd i'r Cyngor
- Siarter recriwtio sy'n sicrhau bod y Cyngor yn cyflogi staff sydd â'r cymwysterau a'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r rôl a ddisgwyllir ganddynt
- Mae hyfforddiant perfformiad ar gael ar gyfer pob aelod o staff a monitro adrannol
- Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig sy'n gyfrifol am sicrhau bod sefydliad swyddogion y Cyngor yn cael ei staffio'n briodol i gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth y Cyngor. Yn ymarferol dirprwyir llawer o'r cyfrifoldeb hwn i gyfarwyddwyr, prif swyddogion a phenaethiaid gwasanaethau
- Bydd y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidd yn pennu'r gofynion i gyflawni eu swyddogaethau statudol
- Disgwyllir i'r agwedd hon ar Lywodraethu (darparu adnoddau ar gyfer gofynion staff y Cyngor) fod yn heriol iawn yn ystod y tymor canolig oherwydd heriau ariannol parhaus. Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (MTFS) yn cynnwys cynlluniau arbedion ariannol sydd wedi arwain at ostwng nifer y staff

- Mae'r MTFS yn edrych ymlaen dros y tair blynedd nesaf (2019/20 i 2021/22) i asesu'r pwysau ar wariant y mae'r Cyngor yn debygol o'i wynebu a lefel yr arbedion y bydd angen eu gwneud
- Mae'r Cyngor yn elwa ar ei aelodaeth o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n darparu cefnogaeth a chymorth ar gyfer ystod o swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor. Mae cymorth tebyg ar gael i aelodau o wahanol gyffwrdd proffesiynol ar draws y Cyngor
- Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i hybu iechyd a lles i'w weithwyr drwy arolygon staff cyfnodol, panel staff ac ymgysylltu â staff
- Bydd y Cyngor yn disgwyl gwerthoedd tebyg o ran datblygu staff a grymuso ei bartneriaid a'i asiantau wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i gael strwythurau a phrosesau gwleidyddol a rheoli effeithiol i reoli'r broses o wneud penderfyniadau ac i ddefnyddio awdurdod o fewn y sefydliad. Mae'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymwneud â chynllunio a darparu gwasanaeth yn deall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd a sut y gallant sicrhau'r canlyniadau gorau posibl gyda'i gilydd.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi ei bortffolios gwasanaethau'n glir a rôl a chyfrifoldeb yr holl Aelodau, yn ogystal â'r penderfyniadau hynny a gedwir gan y Cyngor.

Mae'n amlinellu'n benodol rolau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Gweithredol a'i aelodau gweithredol, Pwyllgorau Craffu a'u Cadeiryddion, aelodau pwyllgorau craffu a Chadeiryddion ac aelodau Pwyllgorau Rheoleiddio.

Mae'n nodi bod gan yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd rôl benodol i'w chyflawni o ran darparu arweinyddiaeth a hefyd wrth ymgymryd â rôl lysgenhadol.

Bydd unrhyw swydd wleidyddol a ddelir yn cael ei nodi yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor (gan gynnwys rolau cynrychioliadol). Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu'r rolau a'r cyfrifoldebau'n barhaus. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant sefydlu i bob Aelod newydd ynghyd â chynngor proffesiynol a rhaglen hyfforddi ar gyfer cyfranogiad pob Aelod.

Cedwir cofnodion ar gyfer pob cyfarfod Pwyllgor ffurfiol sy'n cofnodi'r penderfyniadau a wneir.

Darperir sesiynau briffio i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau cyn cyfarfodydd Pwyllgor a threfnir sesiynau briffio ehangach ar faterion penodol.

Yn yr un modd, ar ochr y swyddogion, mae'r cyfansoddiad yn amlinellu'r cynllun dirprwyo i Gyfarwyddwyr, Prif Swyddogion ac Uwch Swyddogion.

Yn benodol, caiff pedwar penodiad statudol eu cynnwys, sef Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig (Rheolwr Gyfarwyddwr), Swyddog Monitro (Pennaeth Cydymffurfio Cyfreithiol a Chorfforaethol), Swyddog Adran 151 (Prif Swyddog - Adnoddau) a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth Llywodraethu a Phartneriaethau) ynghyd â'u rolau a'u cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod Aelodau'n cael cyngor proffesiynol ariannol a chyfreithiol priodol a chyngor priodol arall.

Yn yr un modd mae gan y Cyngor rolau statudol Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn gyfrifol am bob agwedd ar reoli gweithredol, ac yn ymarferol, mae'n gweithredu hyn drwy gynllun dirprwyo.

Mae'r Prif Swyddog – Adnoddau'n atebol i'r Cyngor am sicrhau bod cyngor priodol yn cael ei roi ar yr holl faterion ariannol ar gyfer cadw cofnodion ariannol a chyfrifon priodol, ac ar gyfer cynnal system effeithiol o reoli mewnl.

Mae'r Pennaeth Cydymffurfio Cyfreithiol a Chorfforaethol (Swyddog Monitro) yn gyfrifol am sicrhau y dilynir y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ac y cydymffurfir â'r holl statudau a rheoliadau perthnasol a datganiadau eraill o arfer da.

Mae'r Cyngor wedi cytuno ar Strwythur Arweinyddiaeth Gorfforaethol diwygiedig o Ebrill 2018 ymlaen gyda'r bwriad o sicrhau'r capasiti a'r gallu strategol sydd eu hangen yn y Cyngor i fynd i'r afael â heriau yn y dyfodol, gyda rolau a disgrifiadau swydd yn cael eu diffinio'n glir ar gyfer pob swydd.

Er mwyn helpu i egluro eu rolau priodol, mae'r Cyngor yn dilyn protocol Aelod/Swyddog sydd wedi'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor yn sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith ac mae'n gweithredu Tîm Arwain Corfforaethol sy'n cynnwys Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phrif Swyddogion, a gefnogir gan Dîm Arwain Ehangach o Benaethiaid Gwasanaeth; gyda'i gilydd mae'r rhain yn sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

## 2.6 Egwyddor Graidd F

**Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnl gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.**

Bydd y Cyngor yn ystyried ei berfformiad yn rheolaidd o ran cyflawni ei amcanion allweddol drwy:

- Ddatblygu cynlluniau busnes ar bob lefel
- Pennu targedau perfformiad yn erbyn pob mesur cenedlaethol a lleol
- Deall a dadansoddi data cymharol a thueddiadau i ddatblygu targedau
- Datblygu data cenedlaethol a lleol ar flaenoriaethau sy'n gysylltiedig â'r canlyniadau strategol, ar bob lefel gwasanaeth a chyfarwyddiaeth
- Cadw golwg ar werth am arian
- Adolygiadau o'r gwasanaethau a ddarperir a blaenoriaethau
- Paratoi cyfrifon wedi'u harchwilio'n allanol
- Cymeradwyo cyllidebau'n flynyddol ac ystyried adroddiadau ar y gyllideb yn rheolaidd
- Swyddogaeth graffu effeithiol i'r aelodau ar yr holl wasanaethau gan gynnwys perfformiad a chyllid fel rhan o'u cylch gorchwyl
- Trefniadau i ymdrin â methiant mewn gwasanaeth
- Monitro trefniadau partneriaeth
- Profi bodlonrwydd cwsmeriaid
- Gweithredu mesurau rheoli mewnol effeithiol
- Monitro cwynion
- Sicrhau cystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau perthnasol a rheoli contractau'n briodol
- Cofrestrau Risg Gwasanaeth a Chyfarwyddiaeth a fydd yn cael eu defnyddio ac yr adroddir arnynt yn effeithiol a rhagweithiol
- Craffu drwy archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr eraill, drwy eu cynllun rheoliadol.
- Cynnal Gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol a Phwyllgor Archwilio.

Mae gan y Cyngor Bwyllgor Archwilio sydd â chydbwysedd gwleidyddol. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd ac fe'i cynghorir gan Bennaeth Archwilio Mewnol y Cyngor, ac fel arfer mae cynrychiolwyr archwilwyr allanol y Cyngor yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae Aelodau'n cael hyfforddiant ar rôl arbennig y Pwyllgor Archwilio.

O dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 adolygwyd rôl a phwrpas y Pwyllgor Archwilio a'i aelodaeth i sicrhau ei fod yn gallu gwella cynllunio strategol ac i hwyluso craffu a herio o fewn strwythurau'r Cyngor. Mae gan y Pwyllgor Archwilio y swyddogaethau canlynol:

- Adolygu, craffu a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr Awdurdod
- Adolygu, craffu a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion ar briodoldeb trefniadau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod
- Goruchwyllo trefniadau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod
- Goruchwyllo trefniadau archwilio'r Awdurdod ac adolygu ei



ddatganiadau ariannol.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Rheoli Risg gyda'r nod yn y pen draw o sefydlu dull cyson ac effeithiol o reoli risg drwy'r Cyngor cyfan. Ategir y strategaeth gan Lawlyfr Rheoli Risg (canllawiau).

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn nodi rolau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion, canllawiau ar sut i ddisgrifio risg, a chanllawiau ar sut i werthuso ac asesu risg. Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol bod cofrestrau risg yn cael eu cynnal ar lefelau gwasanaeth/adran/prosiect ac y byddant yn cefnogi ac yn cyfrannu at y Gofrestr Risg Gorfforaethol sy'n dal y risgiau mwyaf sylweddol a wynebir gan y Cyngor.

Bydd Pwyllgorau Rheoleiddio'n gwneud penderfyniadau ar sail adroddiadau manwl, gydag unrhyw wybodaeth hwyr yn cael ei chyfeirio ati yn y cofnodion. Bydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wrth ymgymryd â gwaith y mae'r Cyngor neu'r Weithrediaeth yn gwneud cais amdano, neu wrth gynnal eu hymchwiliadau eu hunain, yn cytuno ar adroddiadau sy'n cynnwys y dystiolaeth yr ystyrid ei bod yn berthnasol.

## 2.7 Egwyddor Graidd G

### **Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.**

Mae gan y Cyngor Wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol sy'n gweithio yn ôl cynllun archwilio cymeradwy a gaiff ei asesu ar gyfer risg. Mae canlyniadau'r gwaith archwilio a wneir yn llywio barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol o ran lefel y sicrwydd a ddarperir gan amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor.

Bydd adroddiadau'r Weithrediaeth a'r Cyngor yn cynnwys yr holl wybodaeth, tystiolaeth a sylwadau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau. Caiff penderfyniadau'r pwyllgorau eu cofnodi'n ffurfiol mewn cofnodion ac o fewn y daflen benderfyniadau ar gyfer penderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol.

Mae Templed yr Adroddiad Corfforaethol wedi'i adolygu er mwyn iddo gasglu'r wybodaeth ofynnol i gefnogi trafodaeth a gwneud penderfyniadau.

Mae'r Swyddog Monitro ar gael i roi cyngor i aelodau a staff ar wrthdaro buddiannau a phenderfynu ar y budd cyhoeddus ar agendâu'r cynghorau.

Cafodd y swyddogaeth rheoli perfformiad mewn Gwasanaethau Corfforaethol, Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Gwastraff ei chydgrynhoi mewn un tîm canolog. Mae'r tîm hwn yn gweithio o dan y Pennaeth Llywodraethu a phartneriaethau yn y

Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys adroddiadau chwarterol ar yr adroddiad ar berfformiad a chyllid ar y cyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r adroddiadau'n cynnwys diweddariadau ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol, y risgiau mwyaf sylweddol, y diweddariad rheoliadol, y sefyllfa ariannol a'r dangosyddion perfformiad craidd.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac mae'n cymryd rôl arweiniol wrth ddatblygu trefniadau llywodraethu'r partneriaethau strategol allweddol. Wrth weithio mewn partneriaeth, nod y Cyngor yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu clir ar waith sy'n darparu eglurder ynghylch statws cyfreithiol, rolau a chyfrifoldebau partneriaid.

### **3.0 MONITRO AC ADOLYGU**

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo ddangos tystiolaeth glir o'i drefniadau llywodraethu.

Dyma'r fersiwn ddiweddaraf o God Llywodraethu ffurfiol ar gyfer Blaenau Gwent ac mae'r Cyngor yn ymrwymedig i adolygu'r Cod yn barhaus ac, fel elfen bwysig, i ddysgu o'i fabwysiadu i wella trefniadau llywodraethu "ar lawr gwlad" er budd pobl Blaenau Gwent.

Bydd cynnyrch yr adolygiad hwn a gwaith arall yn cael eu cynnwys wrth gyhoeddi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Y bwriad yw y bydd yr adolygiad yn darparu sail tystiolaeth ar gyfer y casgliadau y daethpwyd iddynt ac, fel elfen bwysig, cynllun gweithredu i'w ddilyn er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w ystyried gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor, a bydd y Cyngor yn dirprwyo'r rôl o geisio sicrwydd o effeithiolrwydd y gwahanol drefniadau a ddisgrifir yn y Cod hwn.

Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r fframwaith tystiolaeth a baratowyd i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu gan gynnwys y dogfennau polisi, y gweithdrefnau gweithredu safonol a'r canllawiau a ddefnyddir ynghyd ag ystyriaeth o'u heffeithiolrwydd.